

Pensiynau – Gwybodaeth Sylfaenol

Ebrill 2013



Adran Gwaith
a Phensiynau

Cyflwyniad

Mae angen i bawb gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad. Mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach, felly mae'n bwysicach fyth i chi feddwl sut a phryd i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad a pha mor hir yr ydych am barhau i weithio.

Gall pensiynau fod yn ddryslyd ac nid yw llawer o bobl yn gwybod ble i ddechrau, yn enwedig pan fydd cymaint o bethau eraill y gallwch dalu amdanynt.

Felly, gyda rhywfaint o gynllunio, gallwch helpu eich hun i fod yn barod ar gyfer ymddeoliad. Gall gwneud gwahaniaethau nawr wneud gwahaniaeth i'ch bywyd yn y dyfodol. Po gynharaf y byddwch yn dechrau, y gorau. Peidiwch â thybio eich bod wedi ei gadael yn rhy hwyr i wneud penderfyniadau am eich trefniadau pensiwn.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall y wybodaeth sylfaenol am pensiynau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- beth y gallwch ei gael gan y Wladwriaeth (y Llywodraeth) pan fyddwch yn ymddeol
- rhai o'r dewisiadau y gallwch eu gwneud o ran eich arian i baratoi ar gyfer eich ymddeoliad
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth er mwyn i chi ddechrau cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad nawr, a
- camau ymarferol y gallwch eu cymryd i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y daflen yn gywir o fis Ebrill 2013. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y daflen hon.

Cynnwys

- 5 Pensiynau: nodyn am newidiadau diweddar
- 6 Beth yw pensiwn a pham fod angen un arnaf
- 7 Pryd y dylwn i ddechrau cynilo
- 8 Faint y bydd ei angen arnaf pan fyddaf yn ymddeol
- 9 Sut rydw i'n gwybod a ddylwn i gynilo rhagor
- 10 A oes ffyrdd eraill o gynilo
- 11 Beth fydd yn digwydd os bydd fy sefyllfa yn newid
- 12 Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?
- 12 Beth yw oedran Pensiwn y Wladwriaeth?
- 14 Beth yw Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?
- 15 Sut y caiff fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ei weithio allan
- 19 Beth yw Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?
- 23 Beth os byddaf am gael mwy o arian na'm Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddaf yn ymddeol?
- 24 Beth yw cynllun pensiwn gweithle
- 32 Beth yw pensiwn personol?
- 38 Beth yw pensiwn cyfranddeiliaid
- 39 Alla i gynilo arian mewn mwy nag un pensiwn gweithle neu bersonol ar yr un pryd?
- 40 A oes terfyn i faint y gallaf ei gynilo mewn cynllun pensiwn personol

4 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

- 44 Beth os nad wyf am ymddeol pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- 45 Credyd Pensiwn - os ydych ar incwm isel mewn ymddeoliad
- 48 Cysylltiadau defnyddiol
- 57 Cyhoeddiadau defnyddiol

Pensiynau: nodyn am newidiadau diweddar

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o newidiadau diweddar i bensiynau. Gweler hefyd brif ran y canllaw hwn am fwy o wybodaeth am y newidiadau hyn.

O dan y Ddeddf Pensiynau 2008, yn dechrau o fis Hydref 2012 mae'n rhaid i gyflogwyr gynnig 'cynllun pensiwn gweithle cymhwysol' i'w gweithwyr, a chofrestru holl weithwyr cymwys yn awtomatig i'r cynllun hwnnw. Cynllun 'cymhwysol' yw un sy'n cyfarfod safonau newydd y llywodraeth.



www.gov.uk

O dan y Ddeddf Pensiynau 2011 bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth merched yn cynyddu'n gyflymach i 65 rhwng mis Ebrill 2016 a mis Hydref 2018. O fis Rhagfyr 2018 bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched yn dechrau cynyddu i gyrraedd 66 ym mis Hydref 2020. Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynlluniau hyn ar-lein yn



www.gov.uk/single-tier-pension

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei chynlluniau i newid Pensiwn y Wladwriaeth drwy ddisodli'r cynllun presennol gyda Phensiwn y Wladwriaeth symlach, haen sengl. Os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2016.

Os ydych eisoes yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth, neu'n cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn i'r Pensiwn y Wladwriaeth haen sengl ddod i mewn, byddwch yn parhau i gael eich Pensiwn y Wladwriaeth yn unol â'r rheolau presennol.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r cynlluniau hyn arlein yn



www.gov.uk/single-tier-pension

1 Dechrau arni

Beth yw pensiwn a pham fod angen un arnaf?

Mae pensiwn yn talu incwm rheolaidd i chi fyw arno pan fyddwch yn ymddeol. Mae'n un o'r ffyrdd mwyaf treth-effeithlon o gynilo ar gyfer eich ymddeoliad oherwydd gallwch gael rhyddhad treth ar yr arian y talwch i mewn. Rydym yn egluro rhagor am ryddhad treth a phensiynau yn adran 2.

Os ydych yn aelod o gynllun pensiwn gweithle neu bersonol, bydd y swm o bensiwn a gewch pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu ar sut mae'r cynllun yn gweithio. Gall hyn gynnwys pethau fel:

- pa mor hir rydych wedi bod yn aelod o'r cynllun,
- faint sydd wedi cael ei dalu i mewn (cyfraniadau) dros amser,
- sut mae'r arian wedi cael ei fuddsoddi, a
- faint roeddech yn ennill tra'r oeddech yn gweithio.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae gwahanol fathau o bensiynau yn gweithio, gweler adran 2.

Yn achos Pensiwn y Wladwriaeth, rydych yn talu arian o'ch cyflog i'r Llywodraeth drwy eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mewn rhai amgylchiadau, hyd yn oed os nad ydych yn gweithio, cewch eich trin fel petaech wedi cyfrannu. Os oes gennych ddigon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, yna byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn ymddeol.

Mae angen i bawb gael arian i fyw arno pan fyddant yn ymddeol, ac mae'n bwysig ystyried cynilion hirdymor. Gallai eich ymddeoliad bara am tua thraean o'ch bywyd. Pan fyddwch wedi ymddeol, bydd angen i chi dalu biliau o hyd a byddwch am gael arian i'w wario i fwynhau eich amser hamdden ychwanegol.

Mae gwahanol fathau o pensiwn:

- Pensiwn y Wladwriaeth – mae hwn yn cynnwys Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, a
- pensiynau gweithle - er enghraifft, galwedigaethol, cwmni a pensiynau personol grŵp, a
- pensiynau rydych yn gymryd allan eich hun - er enghraifft, pensiynau preifat neu hapddaliwr.

Cewch wybod arlein am gynllunio a chynilo ar gyfer hwyrach mewn bywyd.



www.gov.uk/plan-retirement-income

Pryd y dylwn i ddechrau cynilo?

Fel llawer o bobl eraill, efallai eich bod yn teimlo bod eich ymddeoliad yn rhy bell i ffwrdd i feddwl amdano. Efallai eich bod yn credu na allwch fforddio cynilo ar gyfer y dyfodol nawr, pan fo cymaint o bethau eraill y mae'n rhaid i chi dalu amdanynt.

Po gynharaf y byddwch yn dechrau cynilo ar gyfer eich ymddeoliad, y mwyaf o arian y byddwch yn debygol o'i gael i fwynhau eich hun – a thalu'r biliau – pan fyddwch yn ymddeol.

Cofiwch

- Peidiwch â phoeni os mai dim ond ychydig o bunnoedd yr wythnos y gallwch ei gynilo i ddechrau. Y peth pwysig yw mai'r cynharaf y byddwch yn dechrau, y mwyaf o amser a fydd gennych i gynilo ac ennill llog ar eich cynilion.
- Wrth i'ch enillion gynyddu, ystyriwch gynyddu eich taliadau pensiwn.
- A pheidiwch â thybio eich bod wedi ei gadael yn rhy hwyr i wneud unrhyw beth – mae bob amser yn werth ailedrych ar eich trefniadau pensiwn.

Faint y bydd ei angen arnaf pan fyddaf yn ymddeol?

Bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn rhoi incwm sylfaenol i'r rhan fwyaf o bobl pan fyddant yn ymddeol, ond dim ond chi all benderfynu ar y ffordd o fyw rydych yn ei dymuno yn ystod ymddeoliad, a'r hyn sydd ei angen arnoch i gyflawni hynny.

Gall rhai costau byw fod yn is pan fyddwch yn ymddeol.

Efallai y byddwch wedi talu eich morgais ac ni fydd rhaid i chi gynnal teulu mwyach ond gall costau, fel gwresogi a gofal iechyd, gynyddu. Hefyd, efallai y bydd gennych fwy o amser hamdden a'r costau a all fod ynghlwm wrth weithgareddau hamdden.

Mae sefyllfa pawb yn wahanol, ac mae gan bawb anghenion gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn penderfynu faint i gynilo ar sail faint y gallant fforddio ei gynilo.

Mae cynllunio ar gyfer eich bywyd gweithio ac ymddeoliad yn mynd yn fwy a mwy pwysig. Efallai bod gennych lawer o hyblygrwydd a dewis o ran sut y byddwch yn gweithio, sy'n ei gwneud yn haws i chi gydbwyso eich bywyd gwaith a'ch bywyd cartref. Bellach, mae mwy o gyflogwyr yn deall y manteision o gyflogi a chadw eu cyflogeion hŷn. Am wybodaeth ynglŷn â gweithio ac ymddeoliad ewch i



www.gov.uk/plan-retirement-income

Sut rydw i'n gwybod a ddylwn i gynilo rhagor?

I'ch helpu i benderfynu a ddylech ddechrau cynilo rhagor ar gyfer eich ymddeoliad, mae angen i chi edrych ar eich materion ariannol yn y ffyrdd canlynol:

- Cael amcangyfrif o faint y gallai eich Pensiwn y Wladwriaeth fod. Gallai hyn eich helpu i benderfynu p'un ai ydych yn cynilo digon o arian ar gyfer eich ymddeoliad, ac a oes angen i chi gynilo mwy. Gweler tudalen 48 am fanylion ar sut y gallwch gael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth.

- Os ydych yn aelod o gynllun pensiwn gweithle, efallai bydd eich cyflogwr neu ddarparwr pensiwn yn anfon cyfriflen pensiwn atoch bob blwyddyn. Bydd hon yn dangos faint y gallech ei gael o'r cynllun pan fyddwch yn ymddeol. Os nad ydych wedi cael cyfriflen, gallwch ofyn i'ch cyflogwr neu ddarparwr pensiwn anfon un atoch.
- os ydych yn aelod o gynllun pensiwn personol (gweler tudalen 32), bydd eich darparwr pensiwn yn anfon cyfriflen pensiwn atoch bob blwyddyn. Bydd hon yn dangos faint fydd gwerth eich cronfa pensiwn personol yn debygol o fod pan fyddwch yn ymddeol. Mae cronfa pensiwn fel arfer wedi ei gwneud i fyny o gyfranddaliadau a chynnyrch ariannol eraill. Os nad ydych wedi cael cyfriflen, gallwch ofyn i'ch darparwr pensiwn anfon un atoch.
- Os ydych yn newid swyddi nifer o weithiau yn ystod eich bywyd gweithio, gall fod yn hawdd colli cysylltiad â chyn gyflogwr a'u cynllun pensiwn. Os credwch y gallai fod gennych un neu fwy o bensiynau gweithle neu personol ond nid ydych yn gwybod y manylion llawn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Orlhain Pensiwn. Os gallwch roi manylion o'r cwmni roeddech yn gweithio iddynt, neu'r darparwr roedd eich pensiwn gyda, efallai y gall y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn roi manylion cyswllt y cynllun i chi. Nid ydych yn gorfod talu am y gwasanaeth hwn. Unwaith y bydd y manylion cyswllt gennych gallwch ofyn i'r darparwr pensiwn i wirio p'un ai os oes gennych pensiwn gyda hwy. Gweler tudalen 51 am fanylion cyswllt y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn.

Os nad ydych yn credu y bydd gennych ddigon o arian i fyw arno pan fyddwch yn ymddeol, ystyriwch p'un a allwch fforddio cynilo mwy drwy gynyddu faint rydych yn ei dalu i mewn i gynllun pensiwn sy'n bodoli eisoes. Neu, gallech ddechrau cynilo i mewn i gynllun pensiwn arall neu ystyried ffyrdd eraill o gynilo.

Gweithredwch

- Mynnwch gael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth. Gweler tudalen 50 am fanylion o sut y gallwch gael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth a'r dyddiad cynharaf y gallwch ei gael.
- Ceisiwch olrhain pensiwn, am ddim. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn (gweler tudalen 51).

A oes ffyrdd eraill o gynilo?

Nid pensiwn yw'r unig ffordd o gynilo ar gyfer eich ymddeoliad. Os ydych yn agosáu at oedran ymddeol neu fod gennych bensiwn gweithle a/neu bersonol eisoes, efallai yr hoffech ystyried opsiynau cynilo eraill, fel rhoi eich arian i mewn i Gyfrif Cynilo Unigol (ISA).

Mae hon hefyd yn ffordd effeithlon iawn o gynilo, gan nad ydych yn talu treth ar yr incwm a gewch.



I gael rhagor o wybodaeth am ISAs, ewch i www.hmrc.gov.uk/isa

Efallai eich bod yn bwriadu defnyddio dulliau eraill o roi arian i chi fyw pan fyddwch yn ymddeol, er enghraifft, buddsoddi mewn eiddo, bondiau, stociau a chyfranddaliadau, neu werthu eich busnes neu'ch cartref. Mae angen i chi ganfod faint fyddai gwerth y rhain, neu faint o incwm rheolaidd y gallech ei gael o'r buddsoddiadau hyn pan fyddwch yn ymddeol.

Gallech hefyd ddewis aros mewn gwaith am fwy o amser. Gall hyn eich helpu i gronni incwm gwell ar gyfer eich ymddeoliad yn ogystal â rhoi mwy o incwm i chi nawr. Gweler tudalen 43 i gael rhagor o wybodaeth am weithio'n hirach.

Am wybodaeth diduedd ar gynilion, buddsoddiadau a chynllunio ariannol, ewch i wefan Gwasanaeth Cyngor Ariannol neu ffonio llinell Cyngor Ariannol. Gweler tudalen 52 am eu manylion cyswllt.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy sefyllfa yn newid?

Bydd bywydau'r rhan fwyaf o bobl, a'u hamgylchiadau personol, yn newid cyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn newid eich swydd neu'n penderfynu dod yn hunangyflogedig. Neu efallai na fyddwch yn gallu gweithio am gyfnodau hir tra byddwch yn gofalu am rywun. Neu efallai y cewch eich anafu neu na allwch weithio oherwydd salwch.

Gallai'r newidiadau hyn olygu y bydd angen i chi gynilo mwy, neu y bydd angen i chi leihau eich taliadau pensiwn am gyfnod.

Gall newidiadau pwysig eraill effeithio ar faint o arian y gallech ei gael. Er enghraifft, efallai yr ewch i fyw a gweithio dramor, priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil, ysgaru neu ddiddymu eich partneriaeth sifil (dod i ben yn gyfreithiol).

Pan fydd newidiadau pwysig fel hyn yn digwydd, mae'n syniad da adolygu eich trefniadau pensiwn.

Gweithredwch

- Ewch i **www.hmrc.gov.uk/isa** neu gysylltu â Chyllid a Thollau EM i gael rhagor o wybodaeth am ISAs. Gweler tudalen 52 i gael manylion.
- Ffoniwch llinell Cyngor Ariannol , neu ewch i wefan Gwasanaeth Cyngor Ariannol, i gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn, sut i gynilo, sut i gynllunio eich arian, a sut y gall newidiadau yn eich bywyd effeithio ar eich pensiwn. Gweler tudalen 52 i gael manylion cyswllt.
- Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau am wybodaeth a help ynglŷn â Phensiwn y Wladwriaeth. Am fwy o wybodaeth am bensiynau gweithle, ymwelwch â **www.gov.uk**. Gweler tudalen 49 am fanylion.
- Gofynnwch am help a chynghor gan ymgynghorydd ariannol annibynnol lleol. Gweler tudalen 56 i weld sut i wneud hyn.
- Cael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth - gweler tudalen 50. Hefyd gweler tudalen 57 ar sut i gael copïau o daflenni am ddim ynglŷn â pensiynau.
- Cysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau am fwy o wybodaeth ar gynlluniau pensiwn. Gweler tudalen 53 am fanylion.

2 Deall eich opsiynau

Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn cynnwys:

- Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, a
- Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Gallech gael un neu'r ddau ohonynt pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Er mwyn eu cael, bydd yn rhaid eich bod wedi talu, wedi eich trin fel petaech wedi talu, neu wedi'ch credydu cyfraniadau Yswiriant Gwladol dros gyfnod penodol o amser. Gweler tudalen 17 i gael gwybod mwy am hyn.

Cofiwch, er bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn rhoi incwm sylfaenol i chi, mae angen i chi ystyried cynilion eraill hefyd, fel y gallwch gael y ffordd o fyw rydych yn ei dymuno pan fyddwch yn ymddeol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bensiynau gweithle, personol a chyfranddeiliaid ar dudalennau 24 i 43. Ceir gwybodaeth am ffyrdd eraill o gynilo ar dudalen 10.

Beth yw oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae'r dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn dibynnu ar bryd y cawsoch eich geni.

Ar hyn o bryd, oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer dynion a merched wedi eu geni cyn 6 Rhagfyr 1953 yw 65.

Ar gyfer merched wedi eu geni ar ôl 5 Ebrill 1950 ond cyn 6 Rhagfyr 1953, oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw rhwng 60 a 65.

Cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66

O dan y Ddeddf Pensiynau 2011, bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn mynd i fyny o 63 i 65 rhwng mis Ebrill 2016 a mis Tachwedd 2018. O fis Rhagfyr 2018 bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched yn dechrau mynd i fyny i gyrraedd 66 ym mis Hydref 2020.

Bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch os rydych yn:

- ferch wedi eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953
- ddyn wedi eich geni ar neu ar ôl 6 Rhagfyr 1953

Newidiadau yn y dyfodol i oedran Pensiwn y Wladwriaeth

O dan y gyfraith bresennol bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn mynd i fyny i

- 67 rhwng 2034 a 2036
- 68 rhwng 2044 a 2046

Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i ddod a'r dyddiad ymlaen ar gyfer cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 67. Nid yw'r newid hwn yn gyfraith eto, ond os bydd wedi ei gymeradwyo gan y Senedd bydd yn effeithio ar bawb a anwyd rhwng 6 Ebrill 1960 a 5 Ebrill 1969. Mae'r llywodraeth yn ystyried hefyd sut y dylai oedran Pensiwn y Wladwriaeth gael ei newid yn y dyfodol. Efallai bydd hyn yn golygu y gallai'r amserlen ar gyfer y cynnydd i 68 gael ei adolygu. Byddai unrhyw newid i'r amserlen angen cymeradwyaeth y Senedd. Gallwch gael gwybodaeth arlein ynglŷn ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth.



www.gov.uk/calculate-state-pension

Nid ydych yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth yn awtomatig - mae'n rhaid i chi wneud cais amdano.

Nid oes rhaid i chi ymddeol pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallwch:

- gario ymlaen i weithio, hyd yn oed os ydych yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth, neu
- oedi cael eich Pensiwn y Wladwriaeth nes yn hwyrach ymlaen. Bydd hyn yn rhoi Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol uwch. neu gyfandaliad ariannol (y byddwch yn gorfod talu treth arno), yn dibynnu ar ba mor hir y byddwch yn oedi ei gael.

Ni fydd y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar yr oedran y gallwch gael unrhyw bensiwn gweithle, personol neu hapddaliwr efallai sydd gennych hawl iddo.

14 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

Beth yw Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?

Mae'r Llywodraeth yn talu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth i bobl sy'n gymwys i'w gael. Y cynharaf y gallwch ei gael yw o oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Rydych yn gymwys i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth os oes gennych ddigon o flynyddoedd pan:

- rydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol
- rydych wedi cael eich trin fel eich bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu
- rydych wedi'ch credydu â chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Gweler tudalennau 17 i 18 i gael rhagor o wybodaeth am dalu credydau Yswiriant Gwladol. Mae tudalennau 15 i 16 yn dweud wrthyf faint o flynyddoedd o gyfraniadau rydych eu hangen.

Bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn cymryd eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol o'ch cyflog. Mae eich slip talu yn dangos faint rydych yn ei dalu. Mae eich cyflogwr yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eich cyfer hefyd. Os ydych yn hunangyflogedig, eich cyfrifoldeb chi yw talu eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun.

Os nad ydych wedi bod yn gweithio a thalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol o'ch cyflog drwy'ch bywyd, efallai y gallwch gael credydau Yswiriant Gwladol o hyd. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn cynnwys:

- cyfnodau rydych wedi bod yn ddi-waith
- cyfnodau nad oeddech yn gallu gweithio oherwydd salwch neu anaf, neu
- pan roeddech yn cael Lwfans Gofalwr oherwydd eich bod yn gofalu am rywun a oedd yn anabl.

O 6 Ebrill 1978 i 5 Ebrill 2010, gallech gael help drwy Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref, os oeddech:

- yn gofalu am blentyn o dan 16 oed ac yn cael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwnnw
- yn gofalu am rywun anabl, neu
- yn ofalwr maeth a gymeradwywyd.

Roedd Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref yn gostwng y nifer o flynyddoedd o gyfraniadau neu gredydau roedd eu hangen i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn.

Os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn neu ar ôl 6 Ebrill 2010, bydd unrhyw flynyddoedd o Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref a enilloch cyn 2010 yn cael eu trawsnewid i flynyddoedd cymhwyso o gredydau, hyd at derfyn o 22 mlynedd.

Cyflwynwyd credydau Gofal Plant Oedolyn Penodol gan y Llywodraeth o'r flwyddyn dreth 2011-2012. Efallai y gallwch gael y credydau hyn os ydych yn gofalu am aelod o'r teulu o dan 12 ac rydych yn oedolyn o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r credydau hyn yn cyfri tuag at Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a rhai Budd-daliadau Profedigaeth. Bydd yn rhaid i chi wneud cais am y credydau; ni fyddant yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniad Yswiriant Gwladol yn awtomatig.



Am wybodaeth arlein

www.gov.uk/boost-state-pension/eligibility

Sut y caiff fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ei weithio allan?

Mae pobl yn cael gwahanol symiau o Bensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn yn dibynnu ar faint o flynyddoedd maent wedi talu, wedi cael eu trin fel petaent wedi talu, neu wedi eu credydu â chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Gelwir y rhain yn 'flynyddoedd cymhwyso'.

Blynyddoedd cymhwyso Pensiwn y Wladwriaeth

Ar hyn o bryd, dim ond 30 o flynyddoedd cymhwyso mae dynion a merched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 eu hangen i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn.

16 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

Os nad oes gennych 30 o flynyddoedd cymhwyso ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn, bydd pob blwyddyn gymhwyso sydd gennych yn rhoi 1/30 o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn i chi. (Ond ni allwch gael mwy na 30/30).



Am wybodaeth arlein
www.gov.uk/state-pension/eligibility

Mae'r nifer o flynyddoedd ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn yn wahanol i bobl a gyrhaeddodd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010:

- Rhaid i ferched gael 39 o flynyddoedd gymhwyso fel arfer i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn.
- Rhaid i ddynion gael 44 o flynyddoedd gymhwyso fel arfer i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn.
- I gael lleiafswm Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth (25% o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn), fel arfer rhaid i chi gael 10 neu 11 o flynyddoedd cymhwyso, yn dibynnu ar eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Os oes gennych lai o flynyddoedd cymhwyso na hyn, ni chewch Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth fel arfer.
- Os oes gennych Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref, caiff nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen arnoch i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ei ostwng.

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei chynlluniau i newid Pensiwn y Wladwriaeth drwy ddisodli'r cynllun presennol gyda Phensiwn y Wladwriaeth symlach, haen sengl. Os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2016. Mae'r llywodraeth wedi ei gwneud yn eglur y bydd yn cymryd i ystyriaeth y cyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi eu gwneud cyn i'r cynllun newydd gael ei gyflwyno.

Os ydych yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth eisoes, neu'n cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn i'r Pensiwn y Wladwriaeth haen sengl ddod i mewn, byddwch yn parhau i gael eich Pensiwn y Wladwriaeth yn unol â'r rheolau presennol.



Am ragor o wybodaeth, ewch i
www.dwp.gov.uk/single-tier-pension

Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth - y prif ffeithiau

Pryd y byddaf yn ei gael?

Gallwch gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Faint ydw i'n ei dalu?

Mae Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi'u talu (neu wedi cael eich trin fel petaech wedi'u talu neu wedi'ch credydu â hwy).

Faint y gallaf ei gael?

Os byddwch yn penderfynu ymddeol yn y flwyddyn dreth 2013/14 a'ch bod yn gymwys i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun, byddech yn cael £110.15 yr wythnos.

Sut rydw i'n talu fy nghyfraniadau Yswiriant Gwladol?

- Os ydych mewn gwaith â thâl ac yn ennill mwy na £149 mewn unrhyw wythnos (ar gyfer 2013/14) gan un cyflogwr, byddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Os ydych mewn gwaith â thâl ac yn ennill rhwng £109 a £149 yr wythnos (ar gyfer 2013/14) gan un cyflogwr, cewch eich trin fel petaech wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Os nad ydych wedi gallu talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (er enghraifft, os nad oeddech yn gallu gweithio oherwydd salwch neu oherwydd eich bod wedi bod yn gofalu am rywun sâl neu anabl ac yn cael Lwfans Gofalwr), yna mae'n bosibl y cewch gredydau Yswiriant Gwladol.
- O 6 Ebrill 2010, efallai hefyd rhoddir gredydau i chi am y cyfnodau pan roeddech yn gofalu am blant o dan 12, yn ofalwr maeth neu yn edrych ar ôl un neu fwy o bobl sâl neu anabl am o leiaf 20 awr yr wythnos.
- Ar gyfer unrhyw gyfnod rydych yn hunangyflogedig, bydd yn rhaid i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol i Gyllid a Thollau EM eich hun. Os ydych ar incwm isel gallech wneud cais i beidio â thalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ond mae'n rhaid i Gyllid a Thollau EM gytuno ar hyn. Gweler tudalen 51 am fanylion cyswllt.

18 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

- Mewn rhai sefyllfaoedd, gallech ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich gwraig, gŵr neu bartner sifil i'ch helpu i gael gwell Pensiwn y Wladwriaeth.

Beth sy'n digwydd os oes gennyf fylchau yn fy nghofnod Yswiriant Gwladol

Efallai y gallwch dalu cyfraniadau Dosbarth 3 gwirfoddol os oes gennych fylchau yn eich cofnod Yswiriant Gwladol. Byddai hyn yn golygu y byddai'r blynyddoedd na fyddent fel arfer yn flynyddoedd cymhwys yn cyfrif tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Ceir cyfyngiadau amser ar gyfer talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol. Fel arfer mae'n rhaid i chi eu talu o fewn chwe blynedd o ddiwedd y flwyddyn dreth rydych yn talu amdani.

Newidiadau a gyflwynwyd o fis Ebrill 2009.

Os yw eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2015, efallai y gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol ychwanegol am hyd at chwe blynedd, o 6 Ebrill 1975, i gwmpasu blynyddoedd nad ydynt yn cyfrif tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ar hyn o bryd. Mae'n rhaid bod gennych 20 o flynyddoedd cymhwys eisoes (gan gynnwys blynyddoedd o Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref). Ac os rydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010, rhaid i chi gael o leiaf un flwyddyn gymhwys o gyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd, neu y cawsoch eich trin fel petaech wedi'u talu.

Mae gennych chwe blynedd o'r dyddiad rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i dalu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 ychwanegol. Nid oes rhaid i chi ddisgwyl hyd tan i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i dalu.

Bydd cyfraniadau Dosbarth 3 gwirfoddol wedi eu talu ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cyfri tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn unig o'r dyddiad maent yn cael eu talu.

Ni allwch dalu cyfraniadau Dosbarth 3 gwirfoddol am unrhyw flwyddyn dreth lawn sydd wedi ei chwmpasu gan etholiad cyfradd gostyngedig gwraig briod neu weddw. Os oeddech wedi canslo eich etholiad rhan o'r ffordd drwy flwyddyn dreth efallai bod gennych hawl i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol am y flwyddyn dreth gyflawn honno.



Am wybodaeth arlein www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions

Efallai y byddwch angen edrych ar gynlluniau'r llywodraeth ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth haen sengl newydd pan rydych yn ystyried gwneud taliadau gwirfoddol. Ni fydd y cynlluniau'n effeithio ar unrhyw un sy'n cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn i'r newidiadau gael eu cyflwyno.



Am fwy o wybodaeth am y newidiadau hyn ewch i www.dwp.gov.uk/single-tier-pension

Gweithredwch

- Mynnwch gael rhagolwg o'ch Pensiwn y Wladwriaeth. Gweler tudalen 50 ar sut i gael rhagolwg.
- Gofynnwch am ein taflen am Bensiwn y Wladwriaeth. Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn y daflen hon i ofalwyr a rhieni a phobl sy'n hunangyflogedig. I archebu copi, gweler tudalen 57.
- Ewch i www.hmrc.gov.uk/national-insurance i gael gwybod mwy am gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu gysylltu â Cyllid a Thollau EM. Gweler tudalen 51 am eu manylion cyswllt.

Beth yw Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?

Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yw'r rhan perthnasol i enillion o'r Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar eich enillion a'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd (neu eu bod yn cael eu trin fel petaent wedi'u talu) drwy gydol eich bywyd gwaith.

Gelwir eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth hefyd. Arferai hwn gael ei adnabod fel Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS) hefyd.

Gallech gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a rennir os cawsoch ysgariad, os cafodd eich priodas ei dirymu neu os daeth eich partneriaeth sifil i ben ar ôl mis Rhagfyr 2000.

Ar gyfer unrhyw gyfnod rydych yn hunangyflogedig ni allwch gael unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar gyfer y cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd gennych.

Newidiadau arfaethedig i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i ddisodli'r cynlluniau Pensiwn y Wladwriaeth bresennol. Os bydd y cynlluniau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd bydd y llywodraeth yn cyflwyno'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2016. O dan y cynlluniau hyn, byddai'r cynllun Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (a alwyd yn flaenorol yn Gynllun Pensiwn yn Berthnasol i Incwm (SERPS), a elwir nawr yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth) yn cau ac yn cael ei ddisodli gan Bensiwn y Wladwriaeth haen sengl, cyfradd unffurf. Mae'r llywodraeth wedi ei gwneud yn eglur y bydd yn cymryd i ystyriaeth y gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi eu gwneud cyn i'r cynllun newydd gael ei gyflwyno. Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn egluro Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth o dan y rheolau fel ag y maent ar hyn o bryd.

Pensiwn ychwanegol - y prif ffeithiau

Pryd byddaf yn ei gael?

Gallwch gael y Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar yr un pryd ag y cewch eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Ond nid oes rhaid i chi ymddeol ar oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a gallwch ddewis oedi cael eich Pensiwn y Wladwriaeth a Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth hyd nes hwyrach ymlaen.

Faint ydw i'n ei dalu?

Mae Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn seiliedig ar faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi'u talu (neu wedi cael eich trin fel petaech wedi'u talu), sydd uwchben y lefel angenrheidiol ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Faint y gallaf ei gael?

Mae faint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a gewch yn dibynnu ar eich enillion. Po fwyaf roeddech yn ei ennill (hyd at Derfyn Enillion Uchaf sef £40,040), y mwyaf o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a gewch. Ers 2002, gall pobl sydd â chyflog isel neu ganolig (Yn 2013/14 cyflog isel yw rhwng £5,668 a £15,000 a chyflog canolig yw rhwng £15,000 ac o gwmpas £33,700) gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth uwch hefyd.

Felly, os ydych yn gweithio i gyflogwr a'ch bod yn ennill mwy na £5,668 (yn 2013/14) o unrhyw un swydd, cewch eich cynnwys yng nghynllun Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Ac, mewn rhai achosion, gall gofalwyr a phobl â salwch neu anabledd hirdymor sydd ddim mewn gwaith efallai gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, ar oedran Pensiwn y Wladwriaeth. I archebu taflen am hyn, gweler tudalen 57.

A oes unrhyw adegau pan na allaf gyfrannu tuag at y Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?

Rydych yn anhebyg o gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar oedran Pensiwn y Wladwriaeth am unrhyw gyfnod o amser pan:

- nad ydych yn gweithio (ond gweler yr adran 'Faint y gallaf ei gael?' ar y dudalen flaenorol ar gyfer rhai eithriadau)
- rydych yn hunangyflogedig
- rydych yn ennill llai na swm penodol y flwyddyn (£5,668 ar gyfer 2013/14 o unrhyw un swydd)
- rydych wedi 'eithrio' o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gweler isod) ac rydych yn talu i mewn i gynllun pensiwn gweithle neu fudd-dal diffiniedig (perthnasol i gyflog) ac rydych yn ennill mwy na' trothwy enillion isel (£15,000 yn 2013/14).

Eithrio

Os ydych yn gweithio i gyflogwr a'ch bod yn ennill mwy na £5,668 (yn 2013/14), cewch eich cynnwys yng nghynllun Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Mae'n bosibl eithrio (gadael) y Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i adeiladu budd-daliadau mewn cynllun pensiwn arall os oes gan eich cyflogwr gynllun pensiwn eithrio gweithle (perthnasol i gyflog) budd-dal diffiniedig rydych yn gymwys i'w ymuno. Byddwch chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraddau llai o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Trefniant yw cynllun pensiwn budd-dal diffiniedig mae rhai cyflogwyr yn sefydlu i roi cynllun pensiwn i'r bobl sy'n gweithio iddynt pan fyddant yn ymddeol. Bydd y rhan fwyaf neu'r holl o'ch Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn dod o gynllun pensiwn eich cyflogwr wedyn. Ni effeithir ar eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Diddymiad eithrio ar gyfer cynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig

Newidiodd y rheolau ar eithrio ym mis Ebrill 2012. O dan y rheolau newydd, os oeddech wedi eithrio i mewn i pensiwn hapddaliwr, pensiwn personol neu rhai cynlluniau pensiwn gweithle, roeddech yn cael dod yn ôl i mewn i'r cynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Ar hyn o bryd gallwch ond cael eich eithrio os ydych mewn cynllun pensiwn gweithle ac mae'r pensiwn a gewch yn seiliedig ar eich cyflog.

Gwybodaeth bwysig - newidiadau yn y dyfodol ar eithrio

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i ddisodli'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth bresennol. Os bydd y cynlluniau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, bydd y llywodraeth yn cyhoeddi Pensiwn y Wladwriaeth haen sengl ym mis Ebrill 2016. O dan y cynlluniau hyn, bydd yr Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn cau. Bydd eithrio o'r Ail Bensiwn y Wladwriaeth ar gyfer cynlluniau budd-dal diffiniedig (rhoi eich hawl i fyny i gael pensiwn gweithle yn berthnasol i gyflog tebyg a thaliad o gyfradd Yswiriant Gwladol is i chi a'ch cyflogwr) yn dod i ben. Os ydych wedi eithrio, byddwch yn cael dod yn ôl yn llawn i mewn i'r un system. Bydd pawb yn talu'r un gyfradd o Yswiriant Gwladol ac yn dod yn gymwys i Bensiwn y Wladwriaeth yn yr un ffordd.

Gweithredwch

I wirio os ydych wedi eithrio eisoes o'r Pensiwn y Wladwriaeth i mewn i gynllun pensiwn gweithle, dylech edrych ar eich dogfennau pensiwn; cysylltu â'ch cyflogwr a darparwr pensiwn. Gallwch wirio hefyd os ydych wedi eithrio eisoes, drwy ffonio llinell gymorth Cyllid a Thollau EM 'Pensiynau wedi'u eithrio'. Gweler tudalen 51 am fanylion cyswllt.

Beth os byddaf am gael mwy o arian na'm Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddaf yn ymddeol?

Y ffordd fwyaf cyffredin o wneud hyn yw cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad drwy wneud taliadau i mewn i bensiwn, fel pensiwn gweithle (os yw eich cyflogwr yn rhedeg un ac rydych yn gallu ymuno ag ef), pensiwn personol neu bensiwn hapddaliwr.

Mae ffyrdd eraill hefyd i helpu cynyddu eich incwm pan fyddwch yn ymddeol. Er enghraifft, gallwch wneud hyn drwy:

- cymryd ymddeoliad rhannol a pharhau i weithio, rhan amser
- oedi cyn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 44).

Yn yr ychydig dudalennau nesaf, ceir gwybodaeth am y dewisiadau hyn i'ch helpu i ddechrau cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad nawr.

Mae gwybodaeth arlein ynglŷn â chynllunio a chynilo ar gyfer hwyrach ymlaen mewn bywyd.



www.gov.uk/plan-retirement-income

Beth yw'r manteision o gynilo mewn cynllun pensiwn preifat?

Mae dwy brif fantais o gynilo ar gyfer eich ymddeoliad mewn cynllun pensiwn preifat:

- gallwch gael rhyddhad treth ar yr arian rydych yn dalu i mewn, ac
- efallai bydd eich cyflogwr yn cytuno i wneud taliadau i mewn i'ch cynllun pensiwn gweithle neu bersonol. Gweler tudalen 31 am fwy ynglŷn â rhyddhad treth ar mewn cynlluniau pensiwn gweithle. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â rhyddhad treth ar arian rydych yn gynilo mewn cynllun personol neu hapddaliwr, gweler tudalen 34.

Gallwch hefyd gysylltu â Chyllid a Thollau EM hefyd i gael rhagor o wybodaeth am ryddhad treth. Gweler tudalen 51 i gael manylion.

Cofiwch

Mae'n bwysig cofio hefyd nad yw math o gynnyrch ariannol, yn cynnwys pensiynau yn hollol rydd o risg. Gyda mathau penodol o bensiwn (a elwir yn gynllun pensiwn diffiniedig neu brynu arian), mae'r swm o bensiwn a gewch yn dibynnu yn bennaf ar faint o arian sydd wedi ei fuddsoddi yn y pensiwn, a pha mor dda mae'r buddsoddiadau hynny wedi perfformio erbyn yr amser i chi ymddeol.

Mae pensiynau'n fuddsoddiad hirdymor. Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â'r dewisiadau sydd ar gael ar hyn o bryd.

I gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu beth sydd orau i chi, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol neu'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau. Neu, gallwch gael cyngor gan ymgynghorydd ariannol annibynnol (efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am eu gwasanaethau). Gweler tudalen 56 i gael rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt.

Beth yw cynllun pensiwn gweithle a chofrestru awtomatig?

Ffordd i gynilo tuag at eich ymddeoliad yw pensiwn gweithle sydd wedi ei drefnu trwy eich cyflogwr. Weithiau gelwir yn 'bensiwn cwmni', 'pensiwn galwedigaethol', 'pensiwn personol grŵp' neu 'bensiwn gwaith'.

Yn dechrau o fis Hydref 2012 bydd holl gyflogwyr, yn dechrau gyda'r rhai mwyaf, yn gorfod cofrestru eu holl weithwyr cymwys i mewn i gynllun pensiwn gweithle cymhwyso ac yn talu cyfraniad isafswm i mewn. 'Cynllun cymhwyso' yw un sy'n cyfarfod safonau newydd y llywodraeth. Gweler tudalen 31 am fwy o wybodaeth. Gallwch ddewis eithrio o'r cynllun os ydych eisiau.

Ond os ydych yn aros bydd rhaid i chi gael eich pot pensiwn eich hun a fyddwch yn defnyddio i brynu incwm ymddeol efallai gwelwch hwn hefyd yn cael alw'n 'flwydd-dal') pan fyddwch yn ymddeol. Mae trefniadau gwahanol ar gael ar gyfer cynlluniau

pensiwn budd-dal diffiniedig. Bydd y llywodraeth hefyd yn talu i mewn iddo, mewn furff rhyddhad treth. Mae hyn yn golygu fod rhywfaint o'r arian rydych yn ennill, yn hytrach na mynd i'r llywodraeth fel 'Treth Incwm, yn mynd i'ch pot pensiwn.

Mae'n rhaid i gynlluniau wedi eu defnyddio ar gyfer cofrestru awtomatig gyfarfod criteria cymhwyso penodol wedi eu gosod allan mewn cyfraith. Gelwir y cynlluniau hyn yn 'gynlluniau cymhwyso' (cynlluniau sy'n cyfarfod safonau newydd y llywodraeth). Bydd p'un ai os ydych yn cael eich cofrestru'n awtomatig i mewn bensiwn gweithle yn dibynnu os ydych mewn cynllun o'r fath ai peidio, faint rydych yn ennill ac eich oedran. Mae gwybodaeth am hyn ac am gofrestru'n awtomatig ar dudalen 31. Fel arall, mae gwybodaeth arlein.



www.gov.uk/workplace-pensions

Pensiynau gweithle - y prif ffeithiau

Pa bryd wyf yn ei gael?

Fel arfer mae'r gyfraith yn gadael i chi gael incwm o'ch cynilion pensiwn unwaith y cyrhaeddwch 55 oed. Mae hyn yn dibynnu ar reolau eich cynllun pensiwn. Fodd bynnag, byddwch fel arfer yn gallu dechrau gwneud cais am eich pensiwn a budd-daliadau llawn yn 60 neu 65 oed. Gofynnwch i'ch cyflogwr am fanylion os nad ydych yn siŵr o'r dyddiad ymddeol ar gyfer eich cynllun. Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi ymddeol o holl waith i gael pensiwn gweithle - ac mewn rhai achosion gallwch hyd yn oed barhau i weithio i'r cyflogwr sy'n talu eich pensiwn.

Faint ydwyf yn talu i mewn?

Mae gwahanol gynlluniau gyda rheolau gwahanol. Fel arfer, rydych yn talu swm misol sy'n ganran o'ch cyflog. Efallai y gallwch hefyd wneud taliadau ychwanegol os ydych eisiau cronfa bensiwn mwy pan fyddwch yn ymddeol.

Faint ydwyf yn ei gael?

Mae'r swm o bensiwn a gewch yn dibynnu'n bennaf ar y math o gynllun rydych yn perthyn iddi ac am faint rydych wedi bod yn talu i mewn iddi:

- Mewn cynllun pensiwn diffiniedig, mae eich pensiwn yn dibynnu'n bennaf ar y nifer o flynyddoedd rydych yn aelod o'r cynllun, a beth rydych yn ennill.

26 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

- Mewn cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig, mae eich pensiwn yn dibynnu'n bennaf ar faint o arian rydych chi a'ch cyflogwr wedi ei dalu i mewn i'ch cronfa a pha mor dda mae buddsoddiadau eich cynllun wedi perfformio erbyn yr amser rydych yn ymddeol.

Pob blwyddyn, efallai bydd eich cyflogwr neu gynllun yn anfon datganiad atoch o faint o bensiwn efallai gewch pan fyddwch yn ymddeol. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu os ydych angen cynilo mwy.

Os nad ydych yn cael datganiad pob blwyddyn, gallwch ofyn i'ch cyflogwr neu ddarparwr pensiwn am un. Gweler isod am fwy ynglŷn â'r ddau fath o gynllun pensiwn hyn.

1 Cynlluniau pensiwn budd-dal diffiniedig

Gelwir y rhain hefyd yn gynlluniau pensiwn sy'n berthnasol i gyflog.

Mewn cynllun ar sail cyflog, mae'r pensiwn a gewch yn seiliedig yn bennaf ar nifer y blynyddoedd rydych yn perthyn i'r cynllun a'ch enillion. Gall eich pensiwn fod yn seiliedig ar eich enillion ar yr adeg y byddwch yn ymddeol neu'n gadael y cynllun, neu eich enillion cyfartalog yn ystod yr amser y gwnaethoch dalu i mewn i'r cynllun. Mewn rhai cynlluniau dim ond eich cyflog sylfaenol sy'n cyfrif tuag at eich pensiwn. Ond mae rhai cynlluniau hefyd yn cynnwys taliadau eraill, fel goramser a bonysau.

Fel arfer mae'n rhaid i chi wneud taliadau i mewn i'r cynllun yn ychwanegol at y rhai y bydd eich cyflogwr yn eu talu. Wrth gyrraedd oedran ymddeol y cynllun, byddwch yn gallu tynnu pensiwn y bydd y cynllun fel arfer yn ei dalu i chi'n uniongyrchol. Efallai bydd gennych yr opsiwn o gymryd cyfandaliad arian parod di-dreth gyda pensiwn is. Mewn rhai cynlluniau sector gyhoeddus byddwch pob amser yn cael cyfandaliad yn ogystal â pensiwn.

2 Cynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig

Gelwir y rhain hefyd yn bensiwn prynu arian.

Mewn cynllun prynu arian, buddsoddir unrhyw gyfraniadau a wneir gennych chi a'ch cyflogwr mewn pethau fel bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Bydd y swm a gewch pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu'n bennaf ar gyfanswm yr arian a dalwyd gennych chi a'ch cyflogwr i mewn i'r cynllun, a pha mor dda mae'r buddsoddiad wedi tyfu, a'r oedran y byddwch yn penderfynu ymddeol. Wrth i chi nesáu at ymddeol, bydd llawer o gynlluniau yn awtomatig yn newid eich buddsoddiadau yn asedau risg is, y mae eu gwerth yn llai tebygol o ostwng a chodi yn y byrdymor. Gelwir hyn yn 'cynllunio ffordd o fyw'. Os nad ydych yn gwybod a fydd hyn yn digwydd i'ch cronfa, bydd eich cynllun pensiwn yn gallu dweud wrthych.

Dyna pam y gelwir y math hwn o gynllun galwedigaethol yn 'gynllun prynu arian' yw pan fyddwch yn ymddeol, gellir defnyddio'r arian yn eich cronfa i brynu incwm rheolaidd i chi am weddill eich bywyd.

Beth yw manteision pensiwn gweithle?

Mae gan bensiwn gweithle dair mantais bwysig:

- Gallwch gael rhyddhad treth ar yr arian rydych yn dalu i mewn. Mae rhyddhad treth yn golygu fod rhywfaint o'r arian y buasech wedi ei dalu i'r llywodraeth mewn ffurf Treth Incwm yn mynd yn ei le i'ch pot pensiwn. Mae faint o ryddhad treth a gewch yn dibynnu ar gyfradd y Dreth Incwm rydych yn talu:
 - Os yw eich incwm trethadwy blynyddol dros £9,440 ond o dan £41,451, yna rydych yn talu'r gyfradd sylfaenol o Dreth Incwm (20% yn 2013/14). Mae rhyddhad treth yn golygu am bob £100 sy'n mynd i'ch pensiwn, mae £20 yn rhyddhad treth gan y llywodraeth.

28 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

- Os yw eich incwm trethadwy blynyddol yn £41,451 i £150,000 yna rydych yn talu'r gyfradd uwch o Dreth Incwm (40% yn 2013/14). Mae rhyddhad treth yn golygu am bob £100 sy'n mynd i'ch pensiwn, mae £40 yn ryddhad treth gan y llywodraeth - gallai hyn fod naill ai fel cynnydd yn eich cyfraniad pensiwn neu ostyngiad yn eich bil treth.
- Os ydych yn drethdalwr cyfradd ychwanegol hynny yw, mae eich incwm dros £150,000 dylech gael 45% o rhyddhad treth ar eich cyfraniadau.
- Bydd rhai trethdalwyr yn derbyn dau gyfradd o ryddhad treth ar eu cyfraniadau. Bydd hyn yn digwydd os yw eich enillion dros y trothwy treth ar gyfer cyfradd treth uwch neu ychwanegol. Er enghraifft, os ydych yn ennill £45,440 ac yn talu cyfraniadau pensiwn o £4,500, byddwch yn cael rhyddhad treth o 40% ar £3,989 o'ch cyfraniadau, ac ar 20% ar y £511 ar ôl, naill ai fel cynnydd yn eich cyfraniad pensiwn, neu ostyngiad yn eich bil treth.
- Os yw eich incwm trethadwy yn llai na £9,440 efallai y gallwch gael ryddhad treth o hyd gan y llywodraeth



Am wybodaeth arlein
www.gov.uk/income-tax-reliefs

Os ydych dros 65 oed, gallwch weld y cyfraddau gwahanol o lwfansau treth drwy fynd i www.gov.uk/income-tax-rates

- Gall eich cyflogwr wneud taliadau i mewn i'r cynllun.
- Gallwch gael buddiannau ychwanegol. Er enghraifft, mae cynlluniau yn aml yn darparu pensiwn ar gyfer eich dibynyddion petaech yn marw o'u blaen. Gofynnwch i'ch cynllun a yw'n gwneud hyn a chael gwybod pa fuddiannau a roddir ganddo.

Gweithredwch

Gallwch gysylltu â'ch cynllun am ragor o wybodaeth am sut y mae rhyddhad treth yn gweithio. Neu gallwch fynd i www.gov.uk/income-tax-reliefs

Os nad ydych eisoes yn aelod o gynllun pensiwn gweithle dylech gael gwybod os oes gan eich cyflogwr un.

Os ydych eisoes yn aelod o gynllun pensiwn gweithle, cofiwch efallai y gallwch gynyddu'r swm rydych yn talu i mewn i'ch cynllun. Gofynnwch i'ch cyflogwr am fwy o wybodaeth.

Pethau i'w cofio pan fyddwch yn ymuno â chynllun pensiwn galwedigaethol

- Cyn i chi ymuno â chynllun pensiwn gweithle, sicrhewch ddau beth pwysig. Faint y bydd yn rhaid i chi ei dalu, a pha gyfraniadau y bydd eich cyflogwr yn eu gwneud.
- Mae'r cynllun yn gysylltiedig â'ch gwaith. Felly, os byddwch yn gadael eich swydd bydd angen i chi wybod beth fydd yn digwydd i'ch pensiwn. Gall eich cyflogwr newydd adael i chi drosglwyddo eich pensiwn i'w gynllun gweithle ei hun.
- Os byddwch yn penderfynu cadw eich arian a'ch buddiannau yng nghynllun eich cyflogwr blaenorol, gallwch ymuno â chynllun pensiwn gweithle arall o hyd.
- Nid oes unrhyw gynnyrch ariannol, gan gynnwys pensiynau, yn gwbl rydd o risg. Er enghraifft, gallai busnes eich cyflogwr roi'r gorau i fasnachu. Neu, gallent benderfynu newid neu gau eu cynllun am reswm arall, a allai olygu y cewch lai na'r hyn a ddisgwyliwyd. Gweler tudalen 30 am fwy o wybodaeth. Hefyd, gall faint o pensiwn a gewch ddibynnu ar ba mor dda mae'r cynllun wedi perfformio erbyn yr adeg y byddwch yn ymddeol.
- Os oes gennych ddiogelwch gwell neu ddiogelwch sefydlog o'r gost treth lwfans einioes dylech eithrio o'r cynllun o fewn 30 diwrnod o ymuno â'r cynllun. Os na wnewch hyn byddwch yn colli eich diogelwch.

Rhai cwestiynau cyffredin am bensiynau gweithle Beth os wyf yn gweithio'n rhan amser?

Os ydych yn gweithio'n rhan amser a bod gan eich cyflogwr gynllun pensiwn gweithle, byddwch yn gallu ymuno â'r cynllun fel arfer.

Ydw i'n dal i gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?

Os yw'ch cynllun wedi'i eithrio, byddwch yn colli eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i gyd neu ran ohono. oherwydd byddwch yn cael eich pensiwn gweithle yn ei le.

Beth os nad yw fy nghyflogwr yn cynnig cynllun pensiwn gweithle?

Os nad yw eich cyflogwr yn cynnig cynllun pensiwn gweithle gallwch ddewis cymryd allan pensiwn personal neu gyfranddeiliad. Gweler yr adrannau ‘Newidiadau i bensiynau gweithle o 2012’ ar dudalen 31 a ‘Beth yw pensiwn personol’ ar dudalen 32.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy nghyflogwr yn rhoi’r gorau i fasnachu neu os bydd y cynllun pensiwn gweithle yn dod i ben (a elwir yn ‘dirwyn i ben’) am ryw reswm arall?

Os bydd eich cyflogwr yn rhoi’r gorau i fasnachu neu os bydd eich cynllun pensiwn yn dirwyn i ben (am ba reswm bynnag), mae siawns y gallech gael llai o bensiwn nag y disgwyliwyd pan fyddwch yn ymddeol.

Mae’r Llywodraeth wedi sefydlu dau sefydliad:

- Y Gronfa Diogelu Pensiynau, a allai dalu iawndal i aelodau cynlluniau pensiwn budd diffiniedig os bydd eu cyflogwr yn rhoi’r gorau i fasnachu, a.
- Y Rheoleiddiwr Pensiynau sy’n helpu i amddiffyn aelodau o gynlluniau pensiwn y gweithle i gyd.

Os credwch y gallai’ch cynllun pensiwn ddirwyn i ben, mae’n bwysig deall eich dewisiadau a’ch bod yn canfod beth sydd orau i chi ei wneud yn eich sefyllfa.

Gweithredwch

- Gall y Gwasanaeth Cyngor Ariannol a’r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau roi gwybodaeth a help i chi am y cynlluniau pensiwn gweithle. Gweler tudalen 53 am eu manylion cyswllt.
- I gael cyngor cyfreithiol neu ariannol am eich sefyllfa bersonol, gallwch gysylltu â Chyngor ar Bopeth (gweler tudalen 56) neu ymgynghorydd ariannol annibynnol (gweler tudalen 56).
- I gael rhagor o wybodaeth am y Gronfa Diogelu Pensiynau, gweler tudalen 53 neu’r Rheoleiddiwr Pensiynau, gweler tudalen 54.


Newidiadau i bensiynau gweithle o 2012

Yn dechrau o fis Hydref 2012, mae'n rhaid i bob cyflogwr gofrestru eu holl weithwyr yn awtomatig i gynllun pensiwn gweithle os ydynt:

- yn o leiaf yn 22 oed
- yn gweithio neu'n gweithio'n arferol yn y DU.
- ddim wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto
- yn ennill mwy na £9,440 y flwyddyn (yn 2013/14). Bydd y ffigwr hwn yn cael ei adolygu pob blwyddyn), a
- ddim eisoes mewn cynllun pensiwn gweithle sy'n cyfarfod safonau penodol y llywodraeth.

Mae'r amseriad o ba bryd y bydd pob cyflogwr yn cofrestru eu gweithwyr yn awtomatig yn dibynnu ar eu maint. Mae cyflogwyr mawr iawn yn gwneud hyn gyntaf, yn hwyr yn 2012 a dechrau 2013. Bydd cyflogwyr eraill yn dilyn rhwng 2013 a 2018, bydd eich cyflogwr yn rhoi'r union ddyddiad yn agosach at yr amser.

Gallwch ddewis i eithrio o'r cynllun os ydych eisiau, ond os arhoswch i mewn bydd gennych eich pot pensiwn eich hun y byddwch yn ei agor pan fyddwch yn ymddeol. Byddwch chi a'ch cyflogwr yn talu i mewn iddo. Bydd y llywodraeth yn cyfrannu i'ch pot pensiwn hefyd, drwy ryddhad treth. Mae rhyddhad treth yn golygu y bydd rhywfaint o'r arian a fyddai wedi mynd i'r llywodraeth fel treth, yn mynd i mewn i'ch pensiwn yn ei le.



Mae'r ffigyrau yn yr esiampl yn seiliedig ar: y gweithiwr yn cael cyflog pensïniadwy o £1,000; 3% o gyfraniad gan y cyflogwr; 4% o gyfraniad gan y gweithiwr a 1% mewn rhyddhad treth.

32 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

Mae'r llywodraeth wedi gosod canran isafswm sydd raid gael ei dalu i mewn gan eich cyflogwr, yn ogystal â chanran isafswm sydd raid gael ei dalu i mewn yn gyfan gwbl (eich cyfraniad, cyfraniad eich cyflogwr a rhyddhad treth wedi eu hadio at ei gilydd).

Gallwch chi a'ch cyflogwr dalu mwy na'r isafswm cyfreithiol. Gallwch dalu llai i mewn - cyn belled â bod cyfraniad eich cyflogwr yn golygu fod yr isafswm yn cael ei dalu.

Os yw eich cyflogwr yn cynnig cynllun cyfraniad diffiniedig i chi, gall yr isafsymiau fynd i fyny ym mis Hydref 2017 a mis Hydref 2018. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau budd-dal diffiniedig yn talu'n uwch na'r isafswm.

Yr isafswm rydych yn dalu

0.8% o'ch 'enillion cymhwysol' yn codi i 4% erbyn 2018.

Yr isafswm mae eich cyflogwr yn dalu

1% o'ch 'enillion cymhwysol' yn codi i 3% erbyn 2018.

Mae'r llywodraeth yn talu

0.2% o'ch 'enillion cymhwysol' yn codi 1% erbyn 2018.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifiannell cyfraniad pensiynau arlein yn **www.moneyadvice.service.org.uk**

Y bwriad yw cael llawer mwy o bobl i gael incwm arall, ar ben Pensiwn y Wladwriaeth, pan fyddant yn ymddeol. Bwriad cael cyflogwyr i gofrestru eu gweithwyr yn awtomatig yw i'w gwneud yn haws i bobl ddechrau. Gallwch ddarllen ynglŷn â newidiadau i bensiynau gweithle arlein.



www.gov.uk/workplace-pensions

Beth yw pensiwn personol?

Gallwch brynu pensiwn personol gan lawer o ddarparwyr pensiynau fel banciau, cwmnïau yswiriant bywyd neu gymdeithasau adeiladu.

Mae pensiwn personol yn gwbl bersonol i chi, sy'n golygu y gallwch barhau i dalu i mewn iddo os byddwch yn newid swyddi.

Mae'n syniad da ystyried pensiwn personol os:

- na allwch dalu i mewn i gynllun pensiwn gweithle, neu os nad ydych am wneud hynny

- rydych yn hunangyflogedig, neu
- nad ydych yn gweithio ond gallwch chi neu rhywun arall fforddio talu i mewn i bensiwn i chi.

Cynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig yw pensiynau personol. Gelwir y rhain hefyd yn gynlluniau pensiwn prynu arian. Gweler tudalen 37 ynglŷn â Phensiynau Personol Grŵp wedi eu darparu gan gyflogwr.

Fel ac mewn cynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig, bydd unrhyw gyfraniadau fydd wedi eu gwneud gennych chi neu ar eich rhan (er enghraifft gan eich cyflogwr) yn cael eu buddsoddi i chi mewn pethau fel bondiau a stociau a chyfrannau. Bydd y swm a gewch pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu'n bennaf ar gyfanswm yr arian rydych chi a'ch cyflogwr wedi'i dalu i mewn i'r cynllun, a pha mor dda mae'r buddsoddiad wedi tyfu, a'r oedran y byddwch yn penderfynu ymddeol.

Ar ymddeoliad, gall hyd at 25% o'ch cynilion pensiwn gael eu cymryd fel cyfandaliad di-dreth. Mae'n rhaid i weddill y gronfa gael ei ddefnyddio i roi incwm ymddeoliad naill drwy flwydd-dal neu drwy leihad incwm, efallai y gwelwch hyn yn cael ei alw'n leihad incwm.

I'r rhan fwyaf o bobl, blwydd-daliadau yw'r ffordd fwy effeithlon i ddefnyddio eu cynilion pensiwn i roi incwm tymor hir mewn ymddeoliad. Maent yn gadael i bobl i sicrhau yn erbyn byw'n hirach a'r risg i'w cynilion redeg allan. Fel ad-daliad am gyfandaliad bydd darparwr blwydd-dal yn gwarantu incwm am oes.

Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth am incwm ymddeoliad, blwydd-daliadau a lleihad incwm ar dudalennau 41 i 43.

Beth yw manteision pensiwn personol?


Mae sawl mantais o dalu i mewn i gynllun pensiwn personol:

- Cewch ryddhad treth beth rydych yn dalu i mewn (mae'r enghraifft ar dudalen 34 yn dangos i chi sut mae hyn yn gweithio).
- Gallwch ddewis cyfandaliad di-dreth o hyd at 25% o'ch cyfanswm pensiwn pan fyddwch yn ymddeol.
- Efallai y gallwch ddewis y cronfeydd i fuddsoddi ynddynt, os ydych am wneud hynny.

34 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

- Gall pobl eraill dalu i mewn i bensiwn personol ar eich rhan (er enghraifft, gall eich cyflogwr, partner neu aelodau eraill o'ch teulu eich helpu i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad).
- Nid oes rhaid eich bod yn gweithio er mwyn cynilo mewn cynllun pensiwn personol.

Rhyddhad treth yw un o'r rhesymau pam y mae llawer o bobl yn dewis pensiwn personol neu gyfranddeiliad i'w helpu i gynilo ar gyfer y dyfodol.



Yn 2012/2013:

Mae Anna yn talu £80 i mewn i'w chynllun pensiwn.

Mae'r Llywodraeth yn talu £20.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm o £100.

Mae Anna yn talu treth ar y gyfradd sylfaenol. Mae hyn yn golygu ei bod yn talu 20c o dreth am bob punt mae'n ennill am 2013/2014.

Mae hyn yn golygu am bob £80 mae'n cynilo mewn pensiwn personol neu hapddaliwr, mae'r Llywodraeth yn adio £20 ychwanegol. Ac, y mwyaf mae'n cynilo, y mwyaf o arian mae'n cael mewn rhyddhad treth.

Pensiynau personol – y prif ffeithiau

Pryd y gallaf gymryd incwm ymddeoliad allan o fy mhot pensiwn?

Bydd hyn yn dibynnu ar reolau'r cynllun pensiwn rydych yn aelod ohono.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i chi ddechrau gwneud cais am fudd-daliadau o 55 oed ond mewn rhai amgylchiadau nid oes cyfyngiadau amser - er enghraifft os ydych yn dioddef o salwch difrifol, gallwch gymryd hyd at 100% o'r gronfa fel cyfandaliad di-dreth. (Mae 'Salwch difrifol' yn golygu lle disgwylir i rhywun fyw am lai na blwyddyn). Po hiraf y byddwch yn parhau i weithio a thalu i mewn i'ch cynllun, y mwyaf o arian y byddwch yn debygol o'i gael pan fyddwch yn penderfynu ymddeol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn penderfynu aros nes eu bod yn 60 neu'n 65 oed. Cofiwch, nid oes rhaid i chi ymddeol o'ch gwaith i gael buddiannau pensiwn.

Pryd y byddaf yn gwneud taliadau i mewn i'm cynllun pensiwn?

Fel arfer, bydd eich darparwr pensiwn yn gofyn i chi wneud taliadau rheolaidd, misol, i mewn i'ch pensiwn personol. Ond, mae'n well gan rai pobl, yn enwedig pobl hunangyflogedig, wneud cyfraniadau unwaith y flwyddyn.

Faint y gallaf ei gael?

Mae faint o bensiwn a gewch yn dibynnu ar faint o arian rydych wedi'i dalu i mewn i'ch cronfa erbyn i chi ymddeol a pha mor dda y perfformiodd y cynllun. Bob blwyddyn, bydd eich darparwr pensiwn yn anfon cyfriflen atoch yn nodi faint fydd cronfa eich pensiwn personol yn debygol o fod. Bydd hyn yn rhoi syniad i chi o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl pan fyddwch yn ymddeol, a bydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen i chi gynilo rhagor.

Pethau i'w cofio wrth ddewis cynllun pensiwn personol

Mae dewis cynllun pensiwn personol yn benderfyniad pwysig ac mae llawer o bethau i'w hystyried, gan gynnwys y canlynol:

- Cyn i chi benderfynu trefnu pensiwn personol, cymharwch y costau y bydd yn rhaid i chi eu talu yn erbyn costau pensiwn cyfranddeiliaid (gweler tudalen 38 i gael rhagor o wybodaeth am bensiynau cyfranddeiliaid). Gwnewch yn siŵr bod y pensiwn personol a ddewiswch yn iawn i chi, oherwydd efallai y bydd yn rhaid i chi dalu costau ychwanegol os byddwch yn penderfynu trosglwyddo i fath gwahanol o gynllun yn ddiweddarach.
- Ceisiwch ganfod faint fydd y darparwr pensiwn yn codi arnoch ar gyfer trefnu pensiwn a'i reoli. Cofiwch, nid yw costau uchel bob amser yn golygu ei fod yn bensiwn da.
- Ceisiwch ganfod beth yw'r rheolau o ran gwneud cyfraniadau. Er enghraifft, a allwch gynyddu neu leihau'r swm a dalwch os bydd eich sefyllfa yn newid?
- Ceisiwch ganfod faint y gallwch ei gynilo.
- Ceisiwch ganfod sut bydd y darparwr pensiwn yn buddsoddi'r arian.

Mae'n syniad da gofyn i sawl darparwr pensiwn am ddyfynbrisiau a gwneud rhywfaint o waith ymchwil. Gallwch gymharu nodweddion a chostau pensiynau personol a hapddaliwr drwy ddefnyddio tablau cymhariaeth arlein y Gwasanaeth Cyngor Ariannol. Gallech gysylltu â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Pensiynau am fwy o wybodaeth am bensiynau personol. Neu gallech ofyn i ymgynghorydd ariannol personol i'ch helpu i ddewis pension personol addas. Efallai bydd yr ymgynghorydd yn codi tâl arnoch neu'n derbyn comisiwn gan y darparwr pensiwn. Dylech wirio hyn yn y dechrau. Os oes gennych gwyn ynglŷn â darparwr pensiwn preifat, dylech gysylltu â'r Ombwdsman Ariannol.

Gweler tudalen 52 am fwy o wybodaeth a manylion cyswllt.

Fel gydag unrhyw gytundeb neu gontract rydych yn ei llofnodi, mae'n bwysig ystyried y cyngor a gewch yn ofalus iawn. Cofiwch ddarllen y print mân bob tro cyn llofnodi neu gytuno ar unrhyw beth.

Pensiynau personol grŵp

Gall rhai cyflogwyr wneud trefniadau i gynnig cyfle i'w staff brynu pensiwn personol yn lle pensiwn galwedigaethol. Gelwir pensiynau personol a drefnir yn y ffordd hon yn 'pensiynau personol grŵp'. Dylech weld a yw eich cyflogwr wedi gwneud y trefniant hwn ac a yw'n addas i chi.

Er bod rhai pobl yn cyfeirio atynt fel 'pensiynau cwmni', ni chânt eu rhedeg gan gyflogwyr ac nid ydynt yn cael eu rhedeg fel pensiynau galwedigaethol.

Gall fod dwy fantais i pensiynau personol grŵp dros pensiynau personol unigol:

- gall eich cyflogwr dalu i mewn i'r cynllun ar eich rhan, ac
- efallai y bydd eich cyflogwr wedi trafod cynigion arbennig gyda'r darparwr pensiwn grŵp, fel talu costau is.

Ond, os byddwch yn gadael eich cyflogwr, bydd yn rhoi'r gorau i dalu i mewn i'ch pensiwn. Gallech hefyd gollu unrhyw gynigion arbennig y mae'ch cyflogwr wedi'u trefnu ar gyfer y cynllun grŵp. Dylech gael cymaint o wybodaeth â phosibl gan eich cyflogwr cyn i chi ymuno â chynllun neu ei adael. Cysylltwch â darparwr y pensiwn i gael gwybod beth yw eich opsiynau.

Gweithredwch

- I gael rhagor o wybodaeth am bensiynau personol, pensiynau personol grŵp ac incwm ymddeoliad, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Pensiynau (gweler tudalen 53) neu'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol (gweler tudalen 52).
- I ddod o hyd i ymgynghorydd ariannol annibynnol yn eich ardal chi, gweler tudalen 56.

Beth yw pensiwn cyfranddeiliaid?

Pensiwn personol yw pensiwn cyfranddeiliaid sy'n fath o gynllun cyfraniad diffiniedig. Nid yw'r pensiwn a gewch yn dibynnu ar eich cyflog a rhoddir yr arian rydych wedi'i gynilo i mewn i fuddsoddiadau ar eich rhan. Pan fyddant yn ymddeol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r arian hwn i brynu math o incwm ymddeoliad, a elwir yn aml yn flwydd-dal, fel arfer mae wedi'i dalu am oes ac wedi ei brynu gan ddarparwr pensiwn neu flwydd-dal. Gweler tudalen 27 am fwy ynglŷn â chynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig. Gall pensiwn cyfranddeiliaid fod yn ddewis da i chi os na allwch dalu i mewn i gynllun pensiwn gweithle neu gynllun pensiwn personol arall, neu os ydych yn hunangyflogedig neu nad ydych yn ennill arian.

Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng pensiwn cyfranddeiliad a mathau eraill o bensiynau personol?

- Mae'r costau am redeg pensiwn cyfranddeiliad wedi ei 'gapio' - mae hyn yn golygu fod terfynau uwch ar faint sydd raid i chi dalu'r darparwr pensiwn.
- Mae taliadau isafswm isel - gall hyn fod yn ddefnyddiol os na allwch ond fforddio talu swm bychan i mewn i'r pensiwn.
- Maent yn fwy hyblyg - mae hyn yn golygu y gallwch ddewis pa bryd a pha mor aml i dalu ac nid oes cosbau os ydych yn methu taliad.

- Nid oes rhaid i chi dalu ffi fel arfer os ydych eisiau symud eich cronfa cyfranddeiliad i ddarparwr pensiwn arall neu gynllun pensiwn cyfranddeiliad arall.
- Os oeddech yn talu i mewn i gynllun pensiwn cyfranddeiliad wedi ei drefnu gan eich cyflogwr cyn 1 Hydref 2012, bydd yn rhaid i'ch cyflogwr barhau i ddiwynnu cyfraniadau o'ch cyflog a'u talu i mewn i'r cynllun hyd nes byddwch yn gofyn iddynt roi'r gorau iddi, rydych yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau ar gyfnodau rheolaidd neu rydych yn gadael y gwaith hwnnw.

Pensiynau cyfranddeiliaid – y prif ffeithiau

Mae pa bryd a sut y gallwch dynnu buddion allan o bensiwn cyfranddeiliad fwy neu lai'r un fath ag yw i bensiynau personol. Ond dylech edrych ar y rheolau o'ch cynllun pensiwn cyfranddeiliad. Gweler 'Pensiynau personol - y prif ffeithiau' ar dudalen 35.

Gweithredwch

- I gael rhagor o wybodaeth a help am bensiynau cyfranddeiliaid, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau. Gweler tudalen 53 am fanylion.

A allaf gynilo arian mewn mwy nag un pensiwn galwedigaethol neu bersonol ar yr un pryd?

Gallwch.

Gall cynilo mewn mwy nag un cynllun pensiwn roi hyblygrwydd a dewis i chi, ond gall hefyd olygu y bydd yn rhaid i chi dalu mwy o gostau gweinyddol. Gall beth sydd orau i chi ddibynnu ar eich sefyllfa, beth sydd ei angen arnoch pan fyddwch yn ymddeol a pha gynilion sydd gennych eisoes. I'ch helpu i benderfynu'r dewis gorau i chi, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi siarad ag ymgynghorydd ariannol annibynnol. Cofiwch, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am eu cyngor.

A oes terfyn ar faint y gallaf ei gynilo mewn cynllun pensiwn personol?

Nid oes cyfyngiad ar faint o arian y gallwch ei gynilo mewn cynllun pensiwn personol (gan gynnwys pensiynau cyfranddeiliad) - er bod rhai cyfyngiadau ar swm y rhyddhad treth y gallwch ei gael.

Y terfyn uchafswm ar gyfer cynilion a rhyddhad treth arnynt yw £3,600 os ydych ddim yn ennill. Os ydych yn ennill mwy na £3,600 y terfyn uchafswm ar gyfer rhyddhad treth yw 100% o'ch enillion. Er enghraifft os ydych yn ennill £25,000 gallwch gael rhyddhad treth ar unrhyw gyfraniadau rydych yn wneud hyd at £25,000. Mae terfyn hefyd ar y swm o'ch cynilion pensiwn a all gael budd o ryddhad treth pob blwyddyn. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans blynyddol ac mae'n £50,000 am 2013-14. Mae hyn yn berthnasol i holl gynlluniau pensiwn. Os yw eich cynilion pensiwn yn fwy na'r lwfans blynyddol o £50,000 efallai bydd rhaid i chi dalu cost treth lwfans blynyddol ar y swm sydd dros ben.

Mae terfyn amser hefyd ar y swm o gynilion pensiwn y gallwch adeiladu dros eich bywyd sy'n cael budd o ryddhad treth. Gelwir hyn yn lwfans bywyd ac mae'n £1.5 miliwn yn 2013-14. Os, pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn, mae eich cynilion pensiwn yn werth mwy na'r lwfans bywyd byddwch y talu treth ar y swm dros ben.

Yn Natganiad Hydref 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd y lwfans bywyd yn gostwng o £1.5 miliwn i £1.25 miliwn a'r lwfans blynyddol o £50,000 i £40,000, o fis Ebrill 2014.



I gael gwybod mwy www.hmrc.gov.uk/pensionschemes/aa-ps.htm

Cymryd buddion o'ch cynllun pensiwn

Mewn rhan fwyaf o amgylchiadau (ar wahân i gymryd eich pot pensiwn fel arian - gweler isod, ac 'Iechyd Difrifol'- gweler tudalen 35), mae'r gyfraith fel arfer yn caniatáu i chi gymryd incwm o'ch cynilion pensiwn unwaith y byddwch yn cyrraedd 55 oed. Ond mae hyn yn dibynnu ar reolau eich cynllun pensiwn gan fod rhai cynlluniau pensiwn efallai gydag oedran uwch i dalu buddiannau. Os nad ydych yn siŵr ar ba ddyddiad y gallwch dynnu buddiannau o'ch cynllun, gallwch gael gwybod gan ymddiriedolwyr neu reolwyr y cynllun. Y prif ffyrdd i gymryd buddiannau o'ch cynllun pensiwn yw:

1. Cymryd eich pot pensiwn fel arian

Os, ar ymddeoliad, mae cyfanswm cyfunol o'ch cronfeydd pensiwn o dan £18,000, efallai y byddwch yn gallu cymryd y cwbl fel arian. Gelwir hyn weithiau yn 'gyfnewid dibwys'. Ond ni allwch wneud hyn cyn i chi gyrraedd 60. Mae'r 25% cyntaf o'r cyfandaliad yn rhydd o dreth fel arfer.

Os yw eich pensiwn yn fath o bensiwn gweithle a elwir yn bensiwn galwedigaethol, efallai y gallwch gymryd eich cynilion pensiwn fel arian os ydynt hyd at £2,000, p'un ai os oes gennych gynilion pensiwn yn rhywle arall ai peidio, cyn belled ag eich bod yn o leiaf 60. Mae'r 25% cyntaf o'r cyfandaliad yn rhydd o dreth fel arfer.

Os yw eich pensiwn yn bensiwn personol, naill ai wedi ei ddarparu drwy eich gweithle neu wedi ei drefnu gennych chi, efallai y gallwch gymryd eich cynilion fel arian os ydynt hyd at £2,000. Mae gennych hawl i wneud hyn ddwywaith, ac mae hyn ar wahân i unrhyw daliad ariannol efallai byddwch yn derbyn o bensiwn galwedigaethol. Mae'n rhaid i chi fod yn 60 o leiaf. Mae'r 25% cyntaf o'r cyfandaliad yn rhydd o dreth fel arfer.

2. Incwm Ymddeoliad a Blwydd-daliadau (cynlluniau pensiwn incwm diffiniedig yn unig)

Y ffordd fwyaf cyffredin o ddefnyddio eich cronfa pensiwn yw cymryd hyd at 25% fel cyfandaliad di-dreth a defnyddio'r gweddill o'r gronfa i brynu math o incwm ymddeoliad a elwir yn flwydd-dal. Mae hyn yn rhoi taliad rheolaidd am fywyd i chi, ac mae'n drethadwy.

42 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

Nid oes rhaid i chi brynu blwydd-dal gan eich darparwr pensiwn fel arfer pan fyddwch yn ymddeol. Drwy siopa o gwmpas gwahanol ddarparwyr pensiwn a blwydd-dal, gallech gynyddu eich incwm ymddeoliad yn sylweddol. Os nad ydych yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hyn eich hun, mae nifer o gwmnïau arbenigol a all eich helpu i ddewis blwydd-dal sy'n cyfarfod eich anghenion orau. Efallai eich bod eisïau cael cyngor gan ymgynghorydd annibynnol. Ond cofiwch efallai bydd rhaid i chi dalu am y gwasanaethau hyn.

Mae'n bwysig hefyd cofio fod mathau gwahanol o flwydd-daliadau wedi eu cynllunio ar gyfer amgylchiadau personol gwahanol. Gallai eich incwm ymddeoliad neu flwydd-dal gael ei effeithio gan iechyd neu ffordd o fyw, neu'r angen i ddarparu incwm i'ch teulu neu ddibynyddion eraill. Er enghraifft, os ydych wedi ysmegu'n rheolaidd am nifer o flynyddoedd, rydych yn debygol o gael gwell incwm na rhywun sydd ddim yn ysmegu.

Am fwy ynglŷn ag incwm ymddeoliad a blwydd-daliadau ewch i gael copi o ganllaw'r Gwasanaeth Cyngori Arian, 'Your Pension its time to choose'. Gallwch gymharu'r nodweddion a chostau gwahanol flwydd-daliadau ar dablau cymharu arlein y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. Gweler tudalen 52 am fanylion cyswllt.

Gallwch gysylltu hefyd â'r Gwasanaeth Ymgynghori Pensiynau, sydd gyda theclyn arlein i'ch helpu i gynllunio'r math o incwm ymddeoliad neu flwydd-dal sy'n cyfarfod eich anghenion orau. Gweler tudalen 53 am fanylion.

3. Diddymiad incwm

Mae diddymiad incwm (wedi ei gyfeirio ato'n aml fel 'lleihad incwm') yn berthnasol i gynlluniau pensiwn cyfraniad diffiniedig yn cynnwys:

- cynlluniau pensiwn personol
- cynlluniau pensiwn personol grŵp, a
- cynlluniau pensiwn cyfranddeiliaid.

Bydd eich darparwr pensiwn neu gyflogwr yn gallu dweud wrthyfch os gallwch ddefnyddio diddymiad incwm. Mae'n drefniant sy'n eich galluogi i gadw eich cronfa pensiwn wedi ei fuddsoddi wrth dynnu rhywfaint o incwm (lleihad pensiwn). Yn nhermau cyffredinol, mae'r incwm y gallwch dynnu ar hyn o bryd hyd at 100% o'r swm blynyddol y byddech wedi ei gael os byddech wedi defnyddio'r gronfa i brynu blwydd-dal i ddarparu eich incwm ymddeoliad. Gelwir y terfyn uwch hwn yn 'derfyn lleihad wedi'i gapio'. Nid oes isafswm.

Fodd bynnag, cyhoeddodd y Llywodraeth yn y Datganiad Hydref 2012 y bydd y terfyn ar gyfer lleihad wedi'i gapio yn cynyddu o 100% i 120% o werth blwydd-dal cyfartal o 26 Mawrth 2013. Bydd y cynnydd o 20% yn berthnasol am holl flynyddoedd lleihad pensiwn yn dechrau ar neu ar ôl 26 Mawrth 2013.

Er enghraifft, os byddai cronfa o £100,000 yn cynhyrchu incwm blwydd-dal o £6,000, o dan y trefniant hon byddech yn gallu cymryd incwm o hyd at £6,000 y flwyddyn. Drwy ddefnyddio'r terfyn 120% yn yr enghraifft hwn, byddai'r terfyn lleihad yn £7,200 y flwyddyn.

Gan fod eich cronfa pensiwn yn aros wedi'i fuddsoddi gall ei werth fynd i fyny neu i lawr, felly mae'n rhaid i'r uchafswm o incwm y gallwch gymryd gael ei adolygu pob tair blynedd gan eich darparwr hyd nes byddwch yn cyrraedd 75, pan fydd yn gorfod cael ei adolygu pob blwyddyn.

Os ydych yn cael incwm pensiwn diogel arall eisoes o beth bynnag £20,000 y flwyddyn (yr isafswm o incwm angenrheidiol) ac yn cyfarfod amodau penodol eraill, efallai y gallwch gymryd eich pensiwn fel 'lleihad hyblyg'. O dan leihad hyblyg, nid yw'r terfyn lleihad wedi'i gapio'n berthnasol. Felly gallwch gymryd eich cronfa pensiwn lleihad yn gyfan gwbl fel incwm pensiwn trethadwy mewn blwyddyn unigol, neu wedi ei ledaenu dros nifer o flynyddoedd os byddai'n well gennych. Nid oes rhaid i'ch darparwr pensiwn gynnig lleihad hyblyg, ond os ydynt, bydd eich darparwr yn gallu dweud wrthyfch beth yw'r amodau ar gyfer lleihad hyblyg a ph'un ai os ydych yn eu cyfarfod ai peidio.

Beth os nad wyf am ymddeol pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Nid oes rhaid i chi ymddeol pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallwch barhau i weithio tra'ch bod yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth. Neu, gallwch oedi cyn cael eich pensiwn tan yn ddiweddarach ac yna gael rhagor o Bensiwn y Wladwriaeth bob wythnos. Os byddwch yn oedi cyn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf blwyddyn, gallwch gael cyfandaliad unigol yn lle hynny (bydd yn rhaid i chi dalu treth ar hwn).

Mae rhai amgylchiadau pan na fyddwch yn ennill rhagor o Bensiwn y Wladwriaeth neu gyfandaliad; er enghraifft os ers cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth:

- rydych wedi derbyn budd-daliadau penodol eraill, neu
- mae eich partner wedi derbyn budd-daliadau penodol eraill, neu
- mae rhywun arall wedi derbyn cynnydd mewn budd-dal arall amdanoch chi, neu
- rydych wedi bod yn y carchar.

Gall gweithio'n hirach eich helpu i adeiladu incwm gwell ar gyfer pan fyddwch yn ymddeol, yn ogystal â rhoi mwy o arian i chi nawr.

Mae pobl yn byw'n hirach nawr, sy'n ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed i gynllunio ymlaen ar gyfer eich dyfodol. Gallech hefyd feddwl am wahanol opsiynau ar gyfer eich ymddeoliad. Efallai na fyddwch ymddeol o waith yn gyfangwbl - efallai byddwch eisiau gweithio'n rhan amser, newid swyddi neu gael llai o gyfrifoldeb. Rydych angen meddwl am ba opsiynau sydd orau i chi, a pha rai sy'n eich helpu i roi'r incwm rydych eisiau, cyn ac ar ôl i chi ymddeol.

Gweithredwch

- Gofynnwch am daflen ar sut i gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad a elwir hefyd yn 'gohirio Pensiwn y Wladwriaeth'.
- Gweler tudalen 57 i gael gwybod sut i gael copi o'r daflen hon.

Credyd Pensiwn – os ydych ar incwm isel mewn ymddeoliad

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y gallwch gael Credyd Pensiwn. Mae Credyd Pensiwn wedi ei wneud i fyny o ddwy elfen:

Credyd Gwarantedig a Chredyd Cynilo.

Mae Credyd Gwarantedig yn gweithio drwy ychwanegu at eich incwm wythnosol gan swm penodol. Efallai byddwch yn derbyn mwy os, er enghraifft, rydych yn ddifrifol anabl, yn ofalwr neu gyda chostau tai fel morgais.

I wneud cais am Credyd Gwarantedig mae'n rhaid i chi fod wedi cyrraedd oedran cymhwys Credyd Pensiwn. Mae hwn yn mynd i fyny'n raddol yn unol â'r cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched i 65, a'r cynnydd pellach i 66 ar gyfer dynion a merched. I gael gwybod yr oedran y gallwch wneud cais am Credyd Pensiwn ewch arlein.



www.gov.uk/pension-credit

Os oes gennych bartner, gall un ohonoch fod o dan yr oedran hwn ond mae'n rhaid i'r person sy'n gwneud y cais fod wedi cyrraedd yr oedran cymhwys.

Gall Credyd Cynilo roi arian ychwanegol i bensiynwyr sydd wedi cynilo rhywfaint o arian i helpu i ddarparu tuag at eu hymddeoliad. Yr oedran y gallwch gael Credyd Cynilo yw 65. Fodd bynnag, o fis Mawrth 2019, bydd hwn yn mynd i fyny'n raddol yn unol â'r cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Os ydych yn 65 neu drosodd ac yn byw yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd efallai bod hawl gennych i Credyd Cynilo.

Efallai y gallwch gael Credyd Cynilo yn ogystal â Chredyd Gwarantedig.

3 Beth y dylwn i ei wneud nesaf?

Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud nawr i ddechrau cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad,

- Gweithiwch eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth allan (mae tudalen 49 yn egluro sut i wneud hyn). Gall newidiadau diweddar i system Pensiwn y Wladwriaeth effeithio ar yr oedran y gallwch ddechrau gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth.
- Darganfyddwch faint o Bensiwn y Wladwriaeth efallai byddwch yn ei gael. Bydd hyn hefyd yn rhoi syniad i chi o'r hyn y gallwch ddisgwyl ei gael ar oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd hefyd yn eich helpu i benderfynu a ydych yn cynilo digon nawr ar gyfer eich ymddeoliad. Gweler tudalen 48 am fanylion am sut i wneud hyn.
- Os nad ydych yn aelod o gynllun pensiwn gweithle eisoes, gofynnwch i'ch cyflogwr am wybodaeth am y cynllun a gynigir ganddynt ac ystyriwch p'un a yw'n iawn i chi.
- Os nad yw'ch cyflogwr yn darparu pensiwn gweithle, ystyriwch siarad ag ymgynghorydd ariannol annibynnol i weld pa pensiwn personol neu gyfranddeiliaid a allai fod yn iawn i chi. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am eu cyngor.
- Os ydych eisoes yn aelod o gynllun pensiwn gweithle, gallai'ch cyflogwr neu ddarparwr pensiwn anfon cyfriflen pensiwn atoch bob blwyddyn. Bydd hon yn dangos faint y gallech ei gael o'r cynllun pan fyddwch yn ymddeol. Os nad ydych wedi cael cyfriflen, gallwch ofyn i'ch cyflogwr neu ddarparwr pensiwn anfon un atoch.
- Os ydych eisoes yn aelod o gynllun pensiwn personol, bydd eich darparwr pensiwn yn anfon cyfriflen pensiwn atoch bob blwyddyn. Bydd hon yn dangos faint fydd gwerth eich cronfa bersonol yn debygol o fod pan fyddwch yn ymddeol. Os nad ydych wedi cael cyfriflen, gallwch ofyn i'ch darparwr pensiwn anfon un atoch.

- Os ydych yn hunangyflogedig ac nad oes gennych ail bensiwn eisoes, ystyriwch siarad ag ymgynghorydd ariannol annibynnol i weld pa bensiwn personol neu gyfranddeiliaid a allai fod yn iawn i chi. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am eu cyngor.
- Os credwch efallai eich bod wedi colli cysylltiad â'ch cynlluniau pensiwn gweithle neu bersonol oherwydd eich bod wedi newid swydd, neu fod y cwmni wedi newid ei enw, cysylltwch â'r Gwasanaeth Orlhain Pensiwn. Efallai y gall eich helpu i olrhain eich pensiwn am ddim. Gweler tudalen 51 am fanylion cyswllt y Gwasaneth Orlhain Pensiwn.

Cysylltiadau defnyddiol

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion cyswllt rhai sefydliadau a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Cost galwadau

Roedd y costau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0845** o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 15c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0870** o linellau daear BT gostio mwy nag 8c y funud a 15c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **03** o linellau daear BT gostio mwy nag 9c y funud a 15c am sefydlu'r alwad. Fodd bynnag, mae galwadau i rifau 03 fel arfer wedi'u cynnwys yng nghost unrhyw gynllun galwadau a allai fod gennych, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth os codir tâl arnoch am y galwadau hyn.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Gallwch ofyn i'n cysylltydd eich ffonio nôl – rhowch eich rhif ffôn iddo.

Ffonau testun – os ydych yn cael anhawster gyda'ch lleferydd neu'ch clyw

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu Gyngor ar Bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella ein taflenni. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut y gallwn wella'r daflen hon ebostiwch hwy i ni yn **leaflet.**

feedback@dwp.gsi.gov.uk

Dim ond ar gyfer adborth y defnyddir y cyfeiriad ebost hwn; ni fyddwn yn gallu ateb cwestiynau ynglŷn â'ch pensiwn neu fuddion ohono.

Sut i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau

Gallwch siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'ch Pensiwn y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn a phethau eraill efallai sydd gennych hawl iddo. Neu gallwch ofyn iddynt beth y gallwch ei ddisgwyl pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Ffôn: **0845 60 60 275** i siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru (neu **0845 60 60 265** yn Saesneg)

Ffôn testun: **0845 60 60 295** i siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru (neu **0845 60 60 285** yn Saesneg)

Mae'r llinellau ar agor o 8am i 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gweithiwch eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth allan

Gallwch weld pryd yn union y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth gan ddefnyddio'r cyfrifiannell ar y wefan yn **www.gov.uk/calculate-state-pension**

Llinell Wybodaeth Pensiwn Gweithle yr Adran Gwaith a Phensiynau

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol ynglŷn â phensiynau gweithle gallwch gysylltu â llinell wybodaeth pensiwn gweithle'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Gwefan: **www.gov.uk/workplace-pensions**

Ffôn: **0845 600 1268 (0845 600 8187)** os ydych yn siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru)

Ffôn testun: **0845 850 0363**

Mae llinellau ar agor dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Sut i gael amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth

Mae dwy ffordd y gallwch gael gwybod faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallwch ei gael:

- defnyddiwch gyfrifiannell Pensiwn y Wladwriaeth arlein i gael amcangyfrif cyflym o'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a'r dyddiad cynharaf y gallwch ei gael, neu
- gwneud cais am ddatganiad o'r Pensiwn y Wladwriaeth, a fydd yn rhoi amcangyfrif i chi o'ch Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Cyfrifiannell Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r cyfrifiannell Pensiwn y Wladwriaeth yn erfyn syml. Nid yw'n edrych ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol, felly nid ydych angen cofrestru i'w ddefnyddio. Mae'n defnyddio gwybodaeth rydych yn rhoi i mewn eich hun ynglŷn â beth rydych wedi ei wneud yn ystod eich bywyd gwaith i roi amcangyfrif i chi o'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth fel ag y mae'n sefyll ar hyn o bryd. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar reolau Pensiwn y Wladwriaeth yn bresennol.

I ddefnyddio'r cyfrifiannell ewch i

www.gov.uk/calculate-state-pension

Datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Bydd datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol hyd yn hyn a'r rheolau Pensiwn y Wladwriaeth bresennol, yn rhoi amcangyfrif o'ch:

- Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth
- Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, a fydd yn cynnwys unrhyw Fudd-dal Ymddeol Graddedig efallai gewch. (Gelwir Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth hefyd yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth ac roedd yn cael ei alw'n Gynllun Pensiwn yn Berthnasol i Gyflog (SERPS)).

Am fwy o wybodaeth ar sut i gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol:

- ewch i **www.gov.uk/state-pension-statement**, neu
- ffonio'r Ganolfan Pensiynau'r Dyfodol ar **0845 3000 168** (ffôn testun **0845 3000 1690** os ydych yn byw yn y DU - mae llinellau ar agor 8am i 6pm dydd Llun i ddydd Gwener. Os ydych yn byw y tu allan i'r DU ffoniwch **+44 191 218 3600** (ffôn testun **+44 191 218 2051**) mae'r llinellau hyn ar agor 8am i 6pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Sut i olrhain pensiwn sydd ar goll

Gallwch ofyn am gael olrhain pensiwn am ddim drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn.

Gwefan: **www.gov.uk/find-lost-pension**

Ffôn: **0845 6002 537** (mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm)

Ffôn testun: **0845 3000 169**

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, ffoniwch **+44 191 215 4491**.

Neu ysgrifennwch i:

Pension Tracing Service

The Pension Service

Tyneview Park

Whitley Road

Newcastle upon Tyne

NE98 1BA.

Sut i gysylltu â Chyllid a Thollau EM

Mae Cyllid a Thollau EM yn gyfrifol am gasglu trethi, gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn ogystal â thalu credydau treth a Budd-dal Plant.

Ar gyfer gwybodaeth am gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

www.hmrc.gov.uk/ni/index.htm

I gael rhagor o wybodaeth am bensiynau wedi'u heithrio

Ffôn: **0845 9 150 150** Mae'r llinellau ar agor o 8am i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Am wybodaeth ynglŷn â'r rheolau treth ar gyfer cynlluniau pensiwn preifat ewch i **www.hmrc.gov.uk/pensionschemes**

52 Pensiynau –Gwybodaeth Sylfaenol

I gael rhagor o wybodaeth am Gyfrifon Cynilo Unigol (ISAs)

Gwefan: **www.hmrc.gov.uk/isa**

Ffôn: : **0845 604 1701**

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am i 8pm dydd Llun i ddydd Gwener, a 8am i 4pm ar ddydd Sadwrn.

Sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol

Ffôn: **0800 023 4567**

Mae llinellau ar agor dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol

Gall y Gwasanaeth Cyngor Ariannol eich helpu i ddeall a rheoli eich arian yn well. Maent yn rhoi cyngor eglur, diduedd i bawb ar draws y DU. Mae eu cyngor a gwybodaeth ar gael arlein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Maent hefyd yn rhoi cyngor ariannol wedi ei theilwra i'ch helpu i wneud dewisiadau drwy gydol eich bywyd, beth bynnag yw eich amgylchiadau. Bydd eu gwiriad arlein yn rhoi cynllun gweithred bersonol i'ch helpu i benderfynu eich blaenoriaethau ariannol a chynllunio ar gyfer eich dyfodol ariannol.

Gwefan: **www.moneyadvice.service.org.uk**

Linell Cyngor Ariannol: Ffôn **0300 500 5000**

Typetalk **18001 0300 500 5000** dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngchori ar Bensiynau

Sefydliad di-elw yw'r Gwasanaeth Cyngchori ar Bensiynau sy'n rhoi gwybodaeth a chanllawiau am ddim ar ystod eang o pensiynau gan gynnwys Pensiwn y Wladwriaeth a chynlluniau gweithle, personol a chyfranddeiliaid. Gallant eich helpu hefyd i ddeall sut mae achosion pensiwn y wladwriaeth yn rhyngweithio gyda phensiynau eraill efallai sydd gennych. Gall hefyd eich helpu os oes gennych broblem, cwyn neu anghydfod gyda'ch darparwr pensiwn gweithle neu breifat.

Ffôn: **0845 601 2923** Mae'r llinellau ar agor o 9am i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gwefan: **www.pensionsadvisoryservice.org.uk**

The Pensions Advisory Service
11 Belgrave Road
London
SW1V 1RB.

Y Gronfa Diogelu Pensiwn

Mae'r Gronfa Diogelu Pensiwn yn talu iawndal i aelodau o gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig cymwys:

- mae 'digwyddiad methdaliad cymhwys' mewn perthynas i'r cyflogwr, a
- nid oes digon o asedau yn y cynllun pensiwn i dalu buddion ar lefel yr iawndal a fyddai'r Gronfa Diogelwch Pensiwn yn ddarparu.

Sut i gysylltu â'r Gronfa Diogelu Pensiwn

Gwefan: **www.pensionprotectionfund.org.uk**

Knollys House
17 Addiscombe Road
Croydon
Surrey
CR0 6SR

Ffôn: **0845 600 2541**

Ffôn testun: **0845 600 2542**

Ffacs: **0208 633 4910**

E-bost: **information@ppf.gsi.gov.uk**

Yr Ombwdsman Pensiynau

Mae'r Ombwdsman Pensiynau yn ymchwilio cwynion ynglŷn â sut mae cynlluniau pensiwn yn cael eu rhedeg.

Gwefan: **www.pensions-ombudsman.org.uk**

Ffôn: **020 7630 2200**

Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Y Rheoleiddiwr Pensiynau sy'n rheoleiddio cynlluniau pensiynau gweithle y DU. Mae'n diogelu buddiannau aelodau ac yn hyrwyddo gweinyddu da o ran cynlluniau pensiwn y gweithle. Ei nod yw lleihau'r risg y bydd sefyllfaoedd yn codi a allai arwain at geisiadau am iawndal gan y Gronfa Diogelu Pensiynau.

Sut i gysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau

Gwefan: **www.thepensionsregulator.gov.uk**

Cymorth i gwsmeriaid

Ffôn: **0845 600 0707**

Mae'r llinellau ar agor o 9am i 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ffacs: **0870 2411144**

E-bost: **customersupport@thepensionsregulator.gsi.gov.uk**

Neu ysgrifennwch i:
The Pensions Regulator
Napier House
Trafalgar Place
Brighton
BN1 4DW.

Y Cynllun Cymorth Ariannol

Mae'r Cynllun Cymorth Ariannol yn talu cymorth i rhai pobl sydd wedi colli eu buddiannau diffiniedig pensiwn galwedigaethol oherwydd bod eu cynllun pensiwn wedi'i dan ariannu wedi dechrau dirwyn i ben, yn gyffredinol rhwng 1af Ionawr 1997 a Ebrill 2005.

Gwefan: **www.pensionprotectionfund.org.uk/fas**

Manylion cyswllt i aelodau cynllun:

Cynllun Cymorth Ariannol
Blwch Post 234
Mowden Hall
Darlington
DL1 9GL

Ffôn: **0845 604 4585**

Ffôn testun: **0845 604 4139** (i'r rhai gyda anawsterau lleferydd a chlyw)

Ebost: **aelodau@fasonline.org**

Manylion cyswllt ar gyfer Gweithwyr Pensiwn Proffesiynol:

Pension Protection Fund
Knollys House
Addiscombe Road
Croydon CR60 6SR

Ffôn: **020 8633 6644**

Ffôn testun: **0845 600 2542** (os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw)

Ebost: **ContactFAS@ppf.gsi.gov.uk**

Sut i gysylltu â Chyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol, ariannol a phroblemau eraill drwy roi cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim. Gallant roi rhagor o wybodaeth i chi am y mathau gwahanol o bensiynau sydd ar gael.

Gallwch ddod o hyd i'ch swyddfa agosaf drwy fynd i'w gwefan yn **www.citizensadvice.org.uk** neu drwy edrych yn eich llyfr ffôn lleol.

Mae llawer o sefydliadau lleol tebyg eraill ar gael sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor am arian. Gweler yr adran 'Information services' yn eich Yellow Pages lleol.

Sut i ddod o hyd i ymgynghorydd ariannol annibynnol

Gall IFA Promotion, Y Gymdeithas Ariannol Personol a'r wefan My Local Advisor eich helpu i ddod o hyd i ymgynghorwyr ariannol yn eich ardal sy'n arbenigo mewn cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad a phensiynau.

Os byddwch yn penderfynu cael cyngor gan ymgynghorydd ariannol annibynnol, bydd yn rhaid i chi dalu ffi am eu gwasanaethau.

Bydd eich ymgynghorydd ariannol annibynnol yn rhoi dogfen i chi yn egluro eu gwasanaethau a'r taliadau cyn iddynt roi unrhyw gyngor ariannol i chi. Dylech bob amser ofyn am fanylion am ba bensiynau y gall eich ymgynghorydd eu cynnig a faint fydd yn rhaid i chi ei dalu mewn ffioedd.

IFA Promotion

Gwefan: **www.unbiased.co.uk**

The Personal Finance Society

Gwefan: **www.thepfs.org**

Gallwch hefyd fynd i **www.mylocaladviser.co.uk**

Cyhoeddiadau defnyddiol

Rydym hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth ar bensiynau mewn nifer o daflenni. Gallwch eu harchebu drwy ffonio

0845 7 31 32 33 Mae'r taflenni hyn yn trafod y pynciau canlynol:

- Pensiynau'r Wladwriaeth
- Credyd Pensiwn
- Sut i gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad (a elwir hefyd yn gohirio Pensiwn y Wladwriaeth)

Rydym yn argymhell eich bod yn ystyried eich sefyllfa yn ofalus iawn a'ch bod yn edrych am ragor o wybodaeth am y dewisiadau rydych yn eu hystyried. Gallwch hefyd gael gwybodaeth ar ein gwefan: **www.gov.uk**

Gallwch hefyd gysylltu â rhai o'r sefydliadau y soniwyd amdanynt yn y canllaw hwn a all gynnig canllawiau a chyngor.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir o fis Ebrill 2013. Mae'n bosibl bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu y daw'n anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y daflen hon.

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais.



Ffôn **0845 731 3233**
Ffôn testun **0845 604 0210**

Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â budd-daliadau a phensiynau arlein.



Ar gyfer gwybodaeth budd-daliadau ewch i
www.gov.uk/browse/benefits



Ar gyfer gwybodaeth pensiynau ewch i
www.gov.uk/browse/working